

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 7 Tachwedd 2011 am 7.30yh yn Hen Ysgol Y Ferwig.

Presennol

Cyng. Llinos Price (Cadeirydd)
Cyng. Ann Stokoe (gadael 9.05)
Cyng. Lynn Jones (cyrr. 8.00)
Cyng. Des Davies

Cyng. Dilwyn Jenkins (Is-Gadeirydd)
Cyng. Islwyn Iago
Cyng. Huw Lewis
Cyng. Haydn Lewis (Aelod Lleol y Cyngor Sir)
Hildreth Owen (Clerc)

- 1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawodd yr Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, bawb i'r cyfarfod ac aethpwyd ymlaen wedyn i drafod yr agenda.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Huw Jones ac Auriol Williams.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Islwyn Iago bod cofnodion mis Hydref yn rhai cywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol**
- 5. Materion yn codi**

Adventure Playground Wales Ltd: Siglen babanod newydd i chwaraefan y Ferwig. Y clerwr wedi gofyn i'r cwmni fynd ymlaen â'r gwaith.

Cyfarfod Ymgynghorol nos Iau, 13 Hydref: Mynychodd y Cynghorwyr Llinos Price a Dilwyn Jenkins ynghyd â'r clerwr y cyfarfod yma. Bydd y cofnodion yn cael eu danfon i'r cyngor mewn da bryd. **Cafwyd adroddiad byr gan y Cadeirydd yn dweud bod y cyfarfod wedi bod yn ddiddorol. Cafwyd adroddiad ynglŷn â'r gwariant ac nid oedd gan unrhywun sylwadau yn dilyn hyn. Mater arall a drafodwyd oedd biniau halen erbyn y gaeaf. Yn dilyn adroddiad y Cyng. Keith Evans, Mr Denfer Morgan a Mr Gwyn Jones, aethpwyd ymlaen i drafod y cwestiynau yr oeddent wedi eu derbyn. Disgwylir y cofnodion yn cynnwys yr atebion hyn.**

Carafanau tu cefn i Penffordd: Trafodwyd hyn yn y cyfarfod ymgynghorol. Ni dderbyniwyd cyngor clir ar y mater; pwysleisiwyd y dylid trin materion cyffelyb yn gyson. **Disgwylir i'r Cyngor Sir edrych i mewn i'r mater yma a chysylltu â'r Cyngor.**

Cae Chwarae'r Clwb Pêl-droed: Yn dilyn cais oddi wrth y clwb pêl-droed, gofynnwyd i'r clerwr gysylltu gyda Mr Gareth Owen ynglŷn â thorri'r borfa a rowlio'r cae. Cyfarfu y Cyng. Des Davies a'r clerwr a Mr Owen ar y cae er mwyn asesu'r cyflwr. Daeth Mr Owen â chopi o lythyr dyddiedig Mehefin 2008 yn mynegi ei bryder ynglŷn â chyflwr y maes y pryd hwnnw.

Er mwyn arbed cost rowlio i'r Cyngor, cytunodd y Cyng. Des Davies ofyn i amaethwyr lleol gyflawni'r gwaith.

Adroddodd y Cyng. Des Davies bod Mr Aled Rees, Trefere Fawr, yn barod i rowlio'r cae ond ar hyn o bryd y mae'n rhy wlyb. Dywedodd y Cyng. Llinos Price y byddai'n danfon e-bost i'r clwb pêl-droed yn gofyn iddynt symud y sbwriel oedd wedi ei adael ar ymyl y cae yn dilyn gosod y pyst newydd yn eu lle. Gofynnodd y Cadeirydd i gymaint o'r Cynghorwyr â phosib i'w chyfarfod ar y cae prynhawn Gwener, 11 Tachwedd am 3.30 er mwyn iddynt archwilio'r cae pêl-droed.

Cyfarfod "Balchder Pentrefi": Mynychodd y Cyng. Llinos Price a'r Clerwr y cyfarfod gyda chynrychiolydd o'r Cyngor Sir yn Beulah, 31 Hydref. Cafwyd gwybodaeth am grant sydd ar gael i adnewyddu pentrefi cyngorau tref a chymuned Ceredigion gan Maria Wilding. Mae enghreifftiau yn cynnwys cynlluniau tirlunio a phlannu, gwelliannau i eisteddleoedd cyhoeddus a goleuadau ynni-isel, gwelliannau i fannau aros trafniadaeth gyhoeddus, arwyddion cyhoeddus neu hysbyfyrddau gwybodaeth. Nid oes grantiau ar gael er mwyn gwella manau chwarae, gan fod cefnogaeth am hynny ar gael gan Ray Ceredigion. Mwyafrif y grant yw £20,000 am un weithred. 60% yn unig o'r cyfanswm sydd ar gael gyda 10% i'w gyfrannu o gronfa'r ymgeisydd a 30% o wahanol grantiau eraill, amser gwirfoddolwyr, cyfraniad at ddeunydd &c. Nid oes lleiafswm i maint y grant. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu fel y gellir gwneud cais hyd at Fehefin 2013 gyda'r holl daliadau i'w cyflawni erbyn Tachwedd 2013. **Gofynnodd y**

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd i bawb feddwl am syniadau ynglŷn â hyn dros y mis neu ddau nesaf.

Torri porfa gyffredinol a thrasio llwybrau 2012: Pris o £854.40 (yn cynnwys TAW) am dorri porfa gyffredinol a £825.60 (yn cynnwys TAW) am drasio llwybrau, wedi eu derbyn oddi wrth Mr John Morris.

Torri porfa Cae Pêl-droed 2012: Pris o £1,484.90 (yn cynnwys TAW) wedi ei dderbyn oddi wrth Mr Gareth Owen.

Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y Cyngor yn derbyn y prisoedd uchod. Y clerc i archebu'r gwaith perthnasol gyda Mr Gareth Owen a Mr John Morris

6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

<i>Gŵyl Fawr Aberteifi (cais am y flwyddyn 2011)</i>	£100 (wedi ei dalu)
Cronfa Goffa T. Llew Jones	£ 50
Clwb Pêl-droed Penyparc (cyfraniad at byst pêl-droed)	£272 (wedi ei dalu)
<i>Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd</i>	£100
<i>Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, Ysgol Penyparc</i>	£100
<i>Ysgol Feithrin Penyparc</i>	£100

Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais

7. Cynllunio (wedi ei ddanfon 17 Hydref)

<i>Rhif y Cais.</i>	<i>Cyfeiriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A110780	Tyhen, Ferwig – Adeilad storio periannau amaethyddol.	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.
A110781	Tyhen, Ferwig – Adeilad newydd storio bwydydd amaethyddol.	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.

<i>Rhif y Cais.</i>	<i>Cyfeiriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A110748	Codi byngalo ar ddarn o dir rhwng Isfryn a Panteg, Penyparc	Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.
A110694	Codi annedd ar ddarn o dir wrth ymyl Jumaro, Gwbert	Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.

Datgan diddordeb: Y Cyng. Dilwyn Jenkins (A110694)

Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Tachwedd 2011.

Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A110714	Codi estyniad – Morawel, Felinwynt.	Wedi ei ganiatáu.
A110673	Min y Môr/Tŷ Gwyn, Mwnt. I'w newid o ddefnydd amaethyddol i bwrpas twristiaeth. Tanc septig newydd a gwaith allanol perthnasol.	Wedi ei ganiatáu.
A110666	Sealands, Patch. Ailosod annedd.	Wedi ei ganiatáu.

8. Cyfarfod Safle. Ni chynhailiwyd cyfarfod safle yn ystod y mis.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

9. Materion Ariannol.

Biliau wedi eu talu.

Y Cyng. Llinos Price (Lwfans y Cadeirydd am chwe mis)	101200	£150.00
Mr Gareth Owen (Torri porfa cae Pêl-droed Penyparc)	101201	£1,414.17
Mr John Morris (6 mis o dorri porfa gyffredinol)	101202	£460.80

Cynigiwyd gan y Cyng. Huw Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Islwyn Iago bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Derbyniadau: Dim.

Materion ariannol eraill:

Cadarnhawyd gan BDO, archwilwyr allanol y cyngor, mai'r unig fater i'w ystyried yn yr adrodiad oedd y cwestiwn o gynyddu'r "Fidelity Guarantee" am eu bod yn tybio nad oedd y lefel yn ddigon uchel wrth ystyried yr arian wrth law ar 31 Mawrth 2011 a'r praesept dderbyniwyd yn Ebrill 2011. Oherwydd hyn, dylai'r Cyngor ystyried y lefel er mwyn arbed y Cyngor yn erbyn unrhyw gollod. Dylid adolygu'r lefel yn flynyddol gan fod amgylchiadau yn newid yn gyson. Ar wahân i hyn, nid oedd materion eraill i'w trafod ynglŷn â chyfrifon y cyngor a ddylid eu hystyried cyn i'r cyngor cymeradwyo ac arwyddo'r Datganiad Blynyddol yn unol â Rheoliad 9(3) a 9(4) Rheoliadau Cyfrifon ac Achwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd) a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Derbyniwyd adroddiad a thystysgrif ddirwydded gan BDO ac nid oes materion, ar wahân i'r uchod, y dymunant i'r cyngor drafod.

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod y cyngor yn cymeradwyo y datganiadau ariannol blynyddol a bod y cadeirydd yn arwyddo Adran 3 o'r ddogfen. Roedd pawb yn gytûn.

10. Gohebiaeth

164	Heddlu Dyfed-Powys	Gwybodaeth ynglŷn â Chyfarfod Ymgynghorol Cymunedol ar y Cyd gyda CSC 2011. Hefyd holiadur a baratowyd gan Awdurdod yr Heddlu a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion	Y clerc wedi danfon yr wybodaeth yma ynglŷn â'r cyfarfod i'r Cynghorwyr a gofyn iddynt gysylltu os ydynt am gopi o'r holiadur cyn cyfarfod y cyngor ar 7 Tachwedd. Y Cadeirydd wedi cwblhau'r holiadur.
165	Cyngor Sir Ceredigion	Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion 2012. Hefyd holiadur i'w lanw.	Holiadur i'w lenwi erbyn diwedd mis Ionawr 2012. Y Cadeirydd i gwblhau'r holiadur.
166	Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd	Llythyr o ddiolch am rodd y Cyngor tuag at eu gwaith.	Nodwyd
167	Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penyparc	Llythyr o ddiolch am rodd y Cyngor.	Nodwyd
168	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith)	Catalog biniau sbwriel i'w leoli tu allan i Ystafell Berkley.	Y Cadeirydd i ddewis bin er mwyn cael pris erbyn y cyfarfod nesaf.
169	Un Llais Cymru	Agenda cyfarfod mis Hydref a chofnodion cyfarfod mis Gorffennaf.	Nodwyd
170	Ysgol Feithrin Penyparc	Llythyr o ddiolch am rodd y Cyngor.	Nodwyd
171	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Priffydd, Eiddo a Gwaith)	Gwybodaeth ynglŷn â hysbyseb yn ymwneud â Chynnal a Chadw yn ystod Gaeaf 2011-2012.	Y clerc i ddosbarthu copi o'r hysbyseb i'r hysbysfyrdau.
172	Bobath Cymru	Llythyr yn gofyn am gyfraniad ariannol.	Nodwyd
173	Cyngor Henoed Ceredigion	Hysbyseb ynglŷn â Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol	Posteri wedi eu dosbarthu ar yr hysbysfyrdau.
174	Chwarae dros Gymru	Rhifyn 35 (Hydref 2011) o gylchgrawn yr elusen.	Copi ar gael gan y clerc.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

175	Menter a Busnes	Poster yn hysbysebu cyngor i gychwyn busnes i Gymry Cymraeg.	Poster wedi eu dosbarthu ar yr hysbysfyrddau.
176	Cyngor Sir Ceredigion	Poster yn hysbysebu sesiynau agored yn ymwneud â Grŵp Gweithredu Lleol ar ddydd Llun 14 Tachwedd 2011	Y clerwr wedi dosbarthu copïau i'r hysbysfyrddau.
177	Cyngor Tref Aberystwyth	Llythyr yn gofyn i'r Cyngor ysgrifennu i ddatgan eu cefnogaeth i arbed toriadau yn Ysbyty Bronglais.	Gofynnwyd i'r clerwr anfon llythyr o gefnogaeth.

11. Materion Eraill.

Trefniadau ar gyfer gwyliau'r clerwr yn 2012: Cynigiodd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, ddelio â'r ohebiaeth bwysig yn absenoldeb y clerwr o 20 Ionawr hyd 29 Chwefror 2012.

Ciosg Felinwynt: Disgwylir syniadau oddi wrth y Cyng. Ann Stokoe. **Penderfynwyd trafod y mater ar ddechrau'r gwanwyn.**

Mannau pasio o Penwaun i ben ffordd y Mwnt: Yn dilyn cais oddi wrth y clerwr i drwsio'r ceubyllau, cafwyd canllawiau bod angen 40mm o ddyfnder cyn eu trwsio. **Dywedodd y Cyng. Islwyn Iago fod rhai o'r ceubyllau wedi eu trwsio.**

Cyngerdd lleol er lles bobl hŷn: Mae'r Cadeirydd wedi trefnu cyngerdd i'w gynnal nos Fawrth, 29 Tachwedd gyda'r elw tuag at ginio Nadolig i henoed sydd dros 70 oed yn y gymuned ar ddydd Gwener, 9 Rhagfyr yng Nghaffi Emllyn, Tanygroes. Cynhelir y ginio am 12 o'r gloch. **Y clerwr i ddosbarthu posteri ynglŷn â'r ginio ac enwau i gyrraedd y Cadeirydd wedi 28 Tachwedd.**

Rhan newydd o'r llwybr arfordirol yn Gwbert: Yn dilyn cwyn oddi wrth aelod o'r cyngor aeth y clerwr ati i archwilio'r safle perthnasol hanner ffordd ar hyd yr adran newydd ei pharatoi. Mae'r biben sydd yn ymestyn o'r maes gerllaw "Engar" yn gollwng dŵr sydd yn amharu ar droedio'r llwybr. **Gofynnwyd i'r clerwr ysgrifennu at lan Dutch ynglŷn â'r biben a hefyd gofyn am ddiweddiariad ynglŷn â phrynu'r tir sydd angen i gwblhau'r llwybr.**

Cistiau halen: Cadarnhaodd y Cyng. Haydn Lewis bod cistiau halen wedi eu gosod ger Blaenpistyll a Parc-y-gors.

Ffagl Olympaidd: Trafodwyd taith y Ffagl Olympaidd yng ngorllewin Cymru a gofynnwyd i'r clerwr gael rhagor o wybodaeth oddi wrth y Cyngor Sir.

Dŵr yn casglu ar y ffordd gerllaw Gwynfro, Ferwig: Gofynnwyd i'r clerwr ysgrifennu at y Cyngor Sir unwaith yn rhagor ynglŷn â'r mater hwn.

Blodau Gwyllt yn tyfu ar y palmant tu allan Hen Ysgol y Ferwig: Gofynnodd y Cyng. Islwyn Iago i'r clerwr achwyn i'r Cyngor Sir ynglŷn â thyfiant y blodau gwyllt ac i'w clirio oddi yno.

Golau diffygiol yn Gwbert: Gofynnodd y Cyng. Dilwyn Jenkins i'r clerwr gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â golau rhif SL73 787.

Ffermydd y Cyngor Sir: Maeslyn a Rhandir, Tremain: Trafodwyd y pryder sydd gan denantiaid y ddwy fferm yn dilyn penderfyniad y Cyngor Sir i ofyn iddynt adael eu cartrefi. Teimlwyd yn gryf gan y Cyngorwyr y dylid cefnogi cais y tenantiaid i frwydro yn erbyn y penderfyniad. Gofynnwyd i'r clerwr anfon llythyr yn mynegi teimladau cryf yr aelodau gan ofyn iddynt ailystyried eu penderfyniad.

Cyfarfod PACT: Mynychodd y Cyng. Dilwyn Jenkins y cyfarfod PACT yn ddiweddar. Cafwyd trafodaeth ar atal tân i ffermwyr gan swyddog awdurdod tân a dywedodd bod chwiliddydd arbennig ar gael i arbrofi gwres gwair. Mae'r dechnoleg yma ar gael yn rhad ac am ddim i bawb yn y diwydiant.

12. Dyddiad Cyfarfod nesaf y Cyngor: 5 Rhagfyr 2011 yn Ystafell Berkley, Penyparc am 7.30yh.

Cyfarfodydd y Cyngor am 2012:

9 Ionawr (F) 6 Chwefror (YB) 5 Mawrth (F) 2 Ebrill (YB) 14 Mai (F) 11 Mehefin (YB) 9 Gorffennaf (F),
3 Medi (YB) 1 Hydref (F) 5 Tachwedd (YB) 3 Rhagfyr (F).

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynnyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 7 November 2011 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig.

Present:

Cllr Llinos Price (Chairperson)
Cllr Ann Stokoe (left 9.05)
Cllr Lyn Jones (arr. 8.00)
Cllr Des Davies

Cllr Dilwyn Jenkins (Vice Chairman)
Cllr Islwyn Iago
Cllr Huw Lewis
Cllr Haydn Lewis (Local Member of CCC)
Hildreth Owen (Clerk)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Llinos Price, welcomed everyone to the meeting and then proceeded to discuss the agenda.
- 2. Apologies for absence:** Cllrs Huw Jones and Auriol Williams.
- 3. Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Islwyn Iago that the minutes for October were correct.
- 4. Declaration of personal interests**
- 5. Matters arising.**
 - Adventure Playground Wales Ltd:** New cradle swing for Ferwig Playarea. The Clerk has asked the company to proceed with the work.
 - Consultative Meeting, 13 October:** Cllrs Llinos Price and Dilwyn Jenkins and the Clerk attended the meeting. The minutes of the meeting will be forwarded by CCC in due course. The Chairman reported that the meeting was informative. A report was given on the county council's financial position. The placement of salt bins in readiness for the winter was also discussed. Following the reports given by Cllr Keith Evans (Leader of the Council), Mr Denfer Morgan and Mr Gwyn Jones, a session of prepared questions and answers was held. The minutes will be forwarded in due course.
 - Caravans to the rear of Penffordd:** This was discussed during the Consultative Meeting. No clear directives were forthcoming; it was stressed that consistency should be practised in all similar situations. The County Council will forward further information regarding this matter.
 - The Football Club field:** Following an application from the Football Club, the Clerk was asked to contact Mr Gareth Owen regarding the cutting of grass and rolling the surface of the field. Cllr Des Davies and the Clerk met Mr Owen on the field to assess the condition of its surface. Mr Owen produced a copy of a letter dated June 2008 stressing his concern at that particular time. In order to curtail the cost of rolling, Cllr Des Davies agreed to contact local agricultural workers for assistance. **He reported that Mr Aled Rees, Trefere Fawr, was prepared to complete the work during dry weather conditions. Cllr Llinos Price stated that she would forward an e-mail to the Football Club asking them to remove the rubble and litter left on the side of the field following the erection of new goalposts. She asked all councillors to assemble on the field on Friday, 11 November at 3.30pm to inspect the surface.**
 - "Balchder Pentrefi" Meeting:** Cllr Llinos Price and the Clerk agreed to attend the meeting with officers of the County Council at Beulah on 31 October. Information regarding grant availability for the Ceredigion Community and Town Councils Village Renewal Fund was given by Maria Wilding. Examples of the type of work envisaged include: modest landscaping and planting schemes in parkland; improvements to public seating and low energy lighting, improvements to public transport waiting areas, public signage or information panels. Grants will not be available towards the cost of improving community play areas, support for which is available through Ray Ceredigion's "Improving Community Play Areas". Maximum grant available is £20,000 per project. 60% of the total sum is available with 10% to be contributed from the applicant's fund and 30% from other grants, volunteer time and contribution towards materials etc. There is no minimum grant size. The scheme will be operated so that applications can be accepted up to June 2013 with all expenditure to be completed by November 2013. **The Chairman asked all members to bring their ideas during the next months.**

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

General grasscutting and path clearance 2012. A quotation of £854.40 (including VAT) for the cost of general grasscutting, and £825.60 (including VAT) for path clearance was received from Mr John Morris.

Cutting of the Football Field grass 2012: A quotation of £1,484.90 (including VAT) was received from Mr Gareth Owen.

It was proposed by Cllr Lyn Jones and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the Council accept the above quotations. The Clerk to inform Mr John Morris and Mr Gareth Owen of the Council's decision.

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

<i>Gŵyl Fawr Aberteifi. (application for 2011)</i>	£100 (paid in April)
T. Llew Jones Memorial Fund	£50
Penyparc Football Club (Donation toward goal posts)	£272 (paid in April)
<i>Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd.</i>	£100
<i>Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, Ysgol Penyparc PTA</i>	£100
<i>Ysgol Feithrin Penyparc</i>	£100

Names in italics = accounts forwarded with applications

7. Planning (forwarded 17 October)

<i>Application No.</i>	<i>Address</i>	<i>Comments</i>
A110780	Tyhen, Ferwig – Agricultural machinery storage building	The council has no objections.
A110781	Tyhen, Ferwig – New Agricultural feedstuffs storage building	The council has no objections.

<i>Application No.</i>	<i>Address</i>	<i>Comments</i>
A110748	Erection of bungalow on plot between Isfryn and Panteg, Penyparc	The council has no objections.
A110694	Erection of dwelling on plot adjoining Jumaro, Gwbert	The council has no objections.

Declaration of interest: Cllr Dilwyn Jenkins (A110694)

County Council's Planning Meeting. Next meeting: 9 November 2011

Applications approved or refused by the County Council.

<i>Application No.</i>	<i>Address</i>	<i>County Council decision</i>
A110714	Erection of an extension – Morawel, Felinwynt.	Approved
A110673	Min y Môr/Tŷ Gwyn, Mwnt. Change of use from farm/agricultural use to holiday use. New septic tank and soakaway and associated external works.	Approved
A110666	Sealands, Patch. Replacement dwelling	Approved

8. Site meeting: No site meetings were held during the month.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

9. Financial Matters.

Bills paid:

Cllr Llinos Price (Chairperson's allowance: 6 months)	101200	£150.00
Mr Gareth Owen (Grasscutting of Football Field, Penyparc)	101201	£1,414.17
Mr John Morris (6 months of general grasscutting)	101202	£460.80

It was proposed by Cllr Huw Lewis and seconded by Cllr Islwyn Iago that the above bills be paid.

Receipts: None

Other financial matters.

It was confirmed by BDO the external auditors, that the only issue causing concern was the Fidelity Guarantee. In their opinion the fidelity guarantee cover obtained by the Council appears to be insufficient in light of the bank balance held at 31 March 2011 and the amount of precept subsequently received in April 2011. There were no other issues arising which should be considered prior to the Council's approval and certification of the Annual Return in accordance with Regulations 9(3) and 9(4) Accounts and Audit (Wales) Regulations 2005 (as amended) and the Annual Governance Statement. An unqualified certificate and report were issued by BDO and there were no issues, apart from the above, they wished to draw to the attention of the Council.

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Des Davies that the Council approve the annual return and that the chair certifies Section 3 of the document. All members were in agreement.

10. Correspondence

164	Dyfed-Powys Police	Information regarding joint Consultative Meeting with the County Council 2011. Also questionnaire from the Police Authority and the Partnership and the Ceredigion Community Safety Partnership.	The clerk forwarded the relevant information to all councillors and mentioned the availability of questionnaire for their perusal. The Chair completed the questionnaire.
165	Ceredigion County Council	Ceredigion Crime and Disorder Strategic Assessment 2012.	Questionnaire to be completed by end of January 2012. The Chair to complete questionnaire.
166	Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd	Letter of gratitude for Council grant towards their work.	Noted
167	Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penyparc	Letter of gratitude for Council grant towards their work.	Noted
168	Ceredigion County Council (Highways, Property & Works)	Catalogue of rubbish bin to be located outside Ystafell Berkley.	The Chair to select a bin and to pursue quotation by next meeting.
169	One Voice Wales	Agenda of October meeting and minutes of July meeting.	Noted
170	Ysgol Feithrin Penyparc	Letter of gratitude for Council grant towards their work.	Noted
171	Ceredigion County Council (Highways, Property & Works)	Information regarding advert for Winter Maintenance 2011-2012.	Clerk to post adverts on noticeboards.
172	Bobath Cymru	Application for financial support.	Noted
173	Age Concern Ceredigion	AGM poster, 17/11/11, 2.00pm, Aberaeron Memorial Hall	Posters distributed to noticeboards.
174	Playing for Wales	Edition 35 (October 2011) of the charity's magazine	Copi available with Clerk
175	Menter a Busnes	Poster advertising advice for Welsh speakers to form their own business.	Posters distributed to noticeboards.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

176	Ceredigion County Council	Posters advertising Open Sessions for Local Action Group, 14/11/11. Lampeter.	Posters distributed to noticeboards.
177	Aberystwyth Town Council	Letter asking the Council to support their efforts protesting at alleged cuts to services at Bronglais Hospital	Clerk asked to forward supporting letter

11. Other Matters

Arrangements during the Clerk's holiday in 2012: The Chair, Cllr Llinos Price, volunteered to deal with relevant correspondence during the Clerk's vacation from 20 January to 29 February 2012.

Felinwynt Kiosk: Ideas are awaited from Cllr Ann Stokoe. **It was agreed to discuss the issue during the spring.**

Passing bays from Penwaun to the Mwnt junction: Following a request to repair potholes, directives were received from the County Council that a depth of 40mm is required before repair work can be sanctioned. Cllr Islwyn Iago added that a number of potholes had been repaired.

Concert for Senior Citizens of the Community: The Chair is in the process of arranging the concert on Tuesday, 29 November with the proceeds towards the Christmas dinner for senior citizens of the community over 70 years of age to be held at Emlyn Café, Tanygroes on 9 December at 12.00 noon. **The Clerk to distribute posters advertising the dinner: names to be received by the Chairman from 28 November.**

New link of the Coastal Path towards Gwbert: Following a complaint received from a member of the public, the Clerk inspected the offending section half-way across the new section. She found that the waste pipe was protruding from the field above the highway next to the "Engar" property expelling waste water onto the path consequently making it impassable for walkers. **The Clerk was asked to write to Ian Dutch highlighting the problem and requesting an update regarding the purchase of land to complete the final section of the path to Gwbert.**

Salt containers: Cllr Haydn Lewis confirmed that the containers would be located near Blaenpistyll and Parc-y-gors.

Olympic Torch: The journey of the Olympic Torch through west Wales was discussed. The Clerk was asked to obtain further information from the County Council.

Water on the roadside near Gwynfro, Ferwig: The Clerk was requested to write to the County Council yet again regarding this ongoing problem.

Wild Flowers on the pavement outside the Old School in Ferwig: Cllr Islwyn Iago asked the Clerk to write to the County Council asking them to remove the wild flowers growing along the pavement.

Faulty Light at Gwbert: Cllr Dilwyn Jenkins asked the Clerk to contact the County Council regarding the faulty light no. SL73 787.

Council Farms: Maeslyn and Rhandir, Tremain: The concern of the farms' tenants regarding the County Council's intention to issue an eviction order during 2012 was discussed fully by the Council. The Councillors felt that they should support the tenants against this proposal and that a strongly worded letter be sent by the Clerk requesting the authority to reconsider their decision.

PACT Meeting: Cllr Dilwyn Jenkins attended the recent PACT meeting. There was also a talk on Fire Prevention for farmers where it was stated that a new probe to test the heat of hay was available to all farmers in the community. This will be carried out free of charge to anyone who requests the service.

12. Date of next Council Meeting: 5 December 2011 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc.

Council Meetings 2012:

9 January (F) 6 February (YB) 5 March (F) 2 April (YB) 14 May (F) 11 June (YB) 9 July (F)
3 September (YB) 1 October (F) 5 November (YB) 3 December (F).

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting